O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2168 (Cy. 235)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Pont Afon Ebwy, Cyffordd 27, High Cross i Gyffordd 28, Parc Tredegar, Casnewydd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed *1 Medi 2011*

Yn dod i rym *12 Medi 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi'u bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984 a phob pŵer galluogi arall, yn gwneud y Gorchymyn hwn**(1).**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Medi 2011 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Pont Afon Ebwy, Cyffordd 27, High Cross i Gyffordd 28, Parc Tredegar, Casnewydd) Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "y darnau o'r draffordd" *("the lengths of the motorway")* yw'r darnau hynny o Draffordd yr M4 Cyffordd 27 High Cross i Gyffordd 28, Parc Tredegar, Casnewydd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 12 Medi 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, heblaw cerbyd esempt, fynd ar hyd un neu fwy o lonydd y gerbytffordd tua'r gorllewin ar y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2.

4. Tra bydd symudiad traffig wedi ei wahardd gan erthygl 3 ar un neu fwy o lonydd y gerbytffordd tua'r gorllewin ond, yn unol ag erthygl 11, heb ei wahardd ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar lôn 3 ar gerbytffordd y draffordd tua'r dwyrain i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, heblaw cerbyd esempt, deithio ar hyd y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 1, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd y ame ei ledyn 1.98 metr neu fwy fynd ar hyd y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 pan fo gwrthlif ar waith.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10 ac 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 3.

8. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10 ac 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 4.

9. Mae Rheoliad 6(3) o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Cymru a Lloegr) 1982**(3)** wedi ei atal dros dro i'r graddau y mae'n ymwneud â lôn allanol cerbytffordd tua'r gorllewin y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 ar yr adegau hynny pan fydd y gwaharddiad a bennir yn erthygl 4 mewn grym.

10. Mae darpariaethau rheoliad 3 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Terfyn Cyflymder) 1974**(4)**, i'r graddau y maent yn gymwys i'r darnau o draffordd a bennir yn Atodlenni 3 a 4, drwy hyn yn cael eu hatal dros dro yn ystod yr adegau hynny y bydd y cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 7 ac 8 yn weithredol.

11. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 a 10 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r